# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 24 Tachwedd 2011** |
| Amser: | **09:30 – 11:15** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_24_11_2011&t=0&l=cy

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Mark Drakeford (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw**<br>**Rebecca Evans**<br>**Vaughan Gething**<br>**William Graham**<br>**Elin Jones**<br>**Lynne Neagle**<br>**Lindsay Whittle**<br>**Kirsty Williams** |
| Tystion: | **Elspeth Weir, Community Pharmacy Scotland**<br>**Malcolm Clubb, Community Pharmacy Scotland**<br>**Alex MacKinnon, Royal Pharmaceutical Society** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Dafydd (Clerc)**<br>**Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)**<br>**Stephen Boyce (Ymchwilydd)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Darren Millar. Nid oedd dim dirprwyon.

## 2. Ymchwiliad i'r cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru – Tystiolaeth gan Fferyllfeydd Cymunedol yr Alban a Chymdeithas Fferyllol Frenhinol yr Alban

2.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor ar y cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd.

2.2 Cytunodd tystion o Fferyllfeydd Cymunedol yr Alban ddarparu:

- copi o adroddiad gan Lywodraeth yr Alban ar ei adolygiad o wasanaeth iechyd cyhoeddus y fferyllfeydd cymunedol ar gyfer rhoi'r gorau i ysmygu a dulliau brys o atal cenhedlu hormonaidd;
- linc i adroddiad gan Brifysgol Manceinion ar y newid mewn dulliau ymgynghori â chleifion mewn gofal sylfaenol a oedd yn archwilio i nifer y bobl yn yr Alban a ddefnyddiodd y Gwasanaeth Mân Anafiadau yn yr Alban.

## 3. Deiseb ar y Ddarpariaeth o Doiledau Cyhoeddus yng Nghymru – Ystyried dull y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cyndeithasol o weithredu

3.1 Ystyriodd y Pwyllgor y papur ar ei ddull o weithredu mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus yng Nghymru. Cytunodd y Pwyllgor y dylai ei waith ganolbwyntio ar y diffyg darpariaeth toiledau cyhoeddus ac effaith hyn ar iechyd y cyhoedd, ac y dylai'r ymgynghoriad cyhoeddus ddod i ben ar 23 Rhagfyr 2011.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i ychwanegu sefydliadau ychwanegol at y rhestr ymgynghori arfaethedig.

## 4. Papurau i'w nodi

4.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd.

4.1 Ymchwiliad i'r cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru – Tystiolaeth ychwanegol gan Fferylliaeth Gymunedol Cymru

4.2 Nododd y Pwyllgor y dystiolaeth ychwanegol gan Fferylliaeth Gymunedol Cymru.

## 5. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.24(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 6

5.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor y cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 6.

## 6. Ymchwiliad i'r cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru – Trafodaeth breifat am y materion sy'n codi

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor y materion sy'n codi o'i ymchwyliad i'r cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymuneol i wasanaethau iechyd yng Nghymru.

## Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.